Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer bwyd anifeiliaid a hylendid bwyd

Ni sy'n datblygu'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer bwyd anifeiliaid a hylendid bwyd. Maent yn cynorthwyo awdurdodau lleol a busnesau i gynnal safonau a diogelu iechyd y cyhoedd.

Caiff y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol eu datblygu'n flynyddol drwy ymgynghori â

- Chynrychiolwyr o awdurdodau lleol
- Safonau Masnach Cenedlaethol
- Penaethiaid Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol
- Aelodau'r Panel Amaethyddol Cenedlaethol
- Aelodau'r Panel Bwyd Anifeiliaid mewn Porthladdoedd

Amcanion

Mae ymgorffori'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol mewn rhaglen o reolaethau swyddogol yn annog Gweithredwyr Busnesau Bwyd Anifeiliaid i gydymffurfio drwy gamau gorfodi.

Dyma amcanion y Blaenoriaethau Cenedlaethol:

- sicrhau cysondeb ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid gonest a diwyd er budd y diwydiant bwyd anifeiliaid;
- lleihau beichiau di-angen ar fusnes drwy ganolbwyntio gweithgarwch awdurdodau lleol ar feysydd cytunedig sy'n peri'r mwyaf o berygl i iechyd pobl a/neu anifeiliaid;
- creu dull hyblyg ac effeithiol o ymyrryd sy'n seiliedig ar wybodaeth (intelligence), a chynnal lefelau priodol o fonitro cydymffurfiaeth ar draws Cymru a Lloegr;
- cyflawni amcan strategol yr ASB sef 'Bwyd y Gallwn Ymddiried Ynddo'
- cynyddu ansawdd a chysondeb rheolaethau swyddogol ar draws Cymru a Lloegr
- diogelu iechyd anifeiliaid a/neu'r cyhoedd.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau i gefnogi awdurdodau lleol wrth ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn eu cynllun blynyddol o reolaethau swyddogol bwyd a bwyd anifeiliaid ar gael yn nogfennau'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol.

Amcanion 2017

England a Wales

Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr 2018-2019 (251.34 KB)